# Ymgynghoriad ar ddiwygio gwasanaethau deintyddol y GIG yng Nghymru

## Mehefin 2025

Age Cymru yw'r brif elusen genedlaethol sy'n gweithio i wella bywydau pob person hŷn yng Nghymru. Credwn y dylai pobl hŷn allu byw bywydau iach a chyffyrddus, gydag incwm digonol, mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel a'r cyfle i lunio eu dyfodol eu hunain. Rydym yn ceisio darparu llais cryf i bob person hŷn yng Nghymru ac i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n bwysig iddynt.

Taliadau ar-lein

Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gael eu heithrio'n ddigidol. Dim ond 41% o bobl dros 75 oed sydd â sgiliau digidol sylfaenol ac mae mynediad at wasanaethau digidol yn is mewn llawer o ardaloedd gwledig. Mae cyflwyno system dalu ar-lein yn golygu na fydd rhai pobl hŷn yn gallu talu'n annibynnol heb help gan deulu a ffrindiau ac felly mae'n hanfodol bod opsiynau talu eraill ar gael. Cyn i newidiadau o'r fath gael eu gwneud, mae angen rhagor o waith i ddeall sut y gall y rhai heb ddulliau talu digidol dalu am eu triniaeth. Rhaid i'r system dalu gynnwys pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol er mwyn iddynt allu talu am eu gofal all-lein.

Rydyn ni hefyd yn poeni am y cyfle i fanteisio ar y newidiadau hyn. Dros y blynyddoedd diwethaf mae cynnydd technoleg ddigidol wedi arwain at gynnydd mewn twyll a gweithgarwch sy'n gysylltiedig â sgamiau. Er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd pobl hŷn yn cael eu twyllo neu'n dioddef sgamiau twyllodrus, mae'n bwysig bod y newidiadau i'r ffordd y mae pobl yn talu yn cynnwys ymgyrch gyhoeddusrwydd helaeth sy'n esbonio'n glir sut mae pobl yn talu am eu gofal deintyddol.

Mae angen ystyried faint o wasanaethau teleffoni sydd eu hangen er mwyn i gleifion gael mynediad amserol at gyngor am opsiynau talu a sut y gellir cyrraedd pobl hŷn sydd wedi'u hynysu a/neu bobl nad ydynt ar-lein drwy'r ymgyrch gyhoeddusrwydd.

Llwybr mynediad sengl drwy'r Porth Mynediad Deintyddol

Mae'n bwysig bod y trefniadau newydd yn ystyried sut y gellir cefnogi pobl hŷn i gael y gofal parhaus sydd ei angen arnynt gan yr un gweithwyr proffesiynol dibynadwy.

Mae pobl hŷn yn llai tebygol o yrru a byddai gostyngiadau mewn argaeledd a dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus yn gadael rhai pobl hŷn heb fynediad at wasanaethau. Mae gostyngiadau mewn trafnidiaeth gyhoeddus yn effeithio ar allu llawer o bobl hŷn i fynd i apwyntiadau yn ogystal â'u gallu i gael bywyd cymdeithasol. Rhaid i'r Porth Mynediad Deintyddol allu adnabod cleifion na fyddai'n gallu teithio a'r

rhai sy'n cael trafferth teithio i bractis nad yw'n lleol a'u cefnogi i ddod o hyd i bractis deintyddol hygyrch.

Dywedodd ymatebwyr i'n harolwg blynyddol yn 2025 eu bod wedi cofrestru ar y porth ond nad ydynt yn gwybod pa mor hir y bydd yn rhaid iddynt aros i weld deintydd. Rydym yn argymell bod system yn cael ei chyflwyno i ganiatáu i gleifion asesu pa mor hir y maent yn debygol o aros am yr apwyntiadau sydd eu hangen arnynt. Bydd hyn yn caniatáu i bobl wneud penderfyniad gwybodus ynghylch p'un ai i aros am ofal y GIG neu a ydyn nhw'n dewis ceisio gofal preifat, os oes ganddynt y modd ariannol.

Addasiadau rhesymol - Methiant i Fynychu

Mae'r nifer cynyddol o bobl hŷn sy'n byw gyda chyflyrau iechyd lluosog, y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl sy'n byw gyda dementia, y cynnydd yn nifer y gofalwyr di-dâl yng Nghymru, a mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ac annibynadwyedd i bobl hŷn, i gyd yn ffactorau a all gyfrannu at fethiant i fynychu materion y tu hwnt i reolaeth y claf.

Hoffem weld rhywfaint o eglurder ynghylch a yw'r EIA wedi ystyried y rhwystrau ychwanegol, cronnol ar gyfer nifer cynyddol o bobl sydd â mwy nag un nodwedd warchodedig ac wedi ystyried hynny. Dylid ystyried addasiadau pellach ar gyfer pobl sy'n profi materion lluosog sy'n effeithio ar DNA o ganlyniad i'r asesiad hwnnw os oes angen.

Newidiadau i gyfnodau ailalw

Mae angen sicrhau nad yw pobl hŷn sydd wedi arfer â gwiriadau rheolaidd ers blynyddoedd lawer yn gwastraffu eu cynilion gwerthfawr yn talu'n breifat am ofal deintyddol nad oes ei angen arnynt.

Mae'n bwysig bod ymgyrch bellach yn cael ei lansio sy'n esbonio'r rhesymeg dros alw wedi'i deilwra a sut i gael apwyntiad yn y cyfamser os oes angen, gan gyd-fynd â'r newidiadau i ganiatáu i'r cyhoedd gymryd rhan mewn newidiadau a defnyddio'r system newydd yn effeithiol.

Codi tâl

Mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn cydnabod y gall pobl hŷn wynebu beichiau ariannol uwch. Rydym yn pryderu nad oes digon o fanylion wedi'u cynnwys ar ddemograffeg yr 1% o gleifion y cyfrifir eu bod yn cael eu heffeithio gan newidiadau codi tâl yn yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae llawer o bobl hŷn yng Nghymru yn cael trafferth ariannol fwyfwy, mae'r rhan fwyaf yn byw ar incwm sefydlog felly nid oes ganddynt unrhyw ffordd arall i dalu'r llu o gostau cynyddol gan gynnwys dŵr, tanwydd, bwyd, treth gyngor, ymhlith eraill.

Mae cost coron y tu allan i'r cap tâl hwn o £384. Mae effeithiau cronedig heneiddio yn golygu bod pobl hŷn yn fwy tebygol o fod angen coronau ac felly, mae hyn yn cynrychioli cost anghymesur. Er bod manteision cynyddu mynediad at ddeintyddiaeth y GIG i bawb yn y cynigion yn glir, ni ddylai hyn fod ar draul pobl hŷn nad ydynt wedi cael mynediad at ddeintydd y GIG ac o ganlyniad mae angen llawer o waith adferol.

Gofynion hyfforddi gwasanaethau deintyddol

Mae'r ymgynghoriad yn manylu ar brisiau’r contract ond nid yw'n cynnwys agweddau ehangach ar drefniadau contract. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru a'r cynnydd a ragwelir yn y rhai sy'n byw gyda mwy o gyflyrau iechyd a nifer y bobl sy'n byw gyda dementia yn golygu bod angen i wasanaethau allu darparu gofal sy'n briodol i'w hamgylchiadau. Hoffem weld manylion ynghylch gofynion hyfforddi ar gyfer staff llawfeddygaeth ddeintyddol, ar ben y gofynion ar hyfforddiant meddygol. Yn benodol, hoffem weld hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia yn cael ei gynnwys fel gofyniad.

Cynlluniau cyfathrebu ar newidiadau i gontractau deintyddol

Mae'r newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn cael gofal deintyddol a sut maen nhw'n talu amdano angen ymgyrch gyhoeddusrwydd eang, glir a hygyrch sy'n cyd-fynd â'r newidiadau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau cyfathrebu ar-lein ac all-lein. Rhaid i hyn ystyried y rhai sydd wedi'u hynysu a'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol. Dylid ystyried yr adnoddau sydd eu hangen fel rhan o'r newid.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig Llawr Gwaelod, Tŷ’r Morwyr, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2025.